

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda,
Canolfan Ddeintyddol Quay
Street.**

7 Gorffennaf 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	12
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	14
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddyd rhybudd o Ganolfan Ddeintyddol Quay Street , yn The Candle Store, Quay Street, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 1BB yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 7 Gorffennaf 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Quay Street yn rhan o grŵp IDH ac yn darparu gwasanaethau i gleifion y GIG yn bennaf, gyda rhai gwasanaethau preifat, yn ardal Hwlfordd yn Sir Benfro. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, un hyleneidd, chwe nyrs, un rheolwr practis, a dau dderbynydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Diagnosis ac atal
- Llenwadau
- Tynnu dannedd
- Coronau a phontydd
- Cyflenwi ac atgyweirio dannedd gosod
- Rhagnodi a chyflenwi meddyginiaethau deintyddol
- Rhywfaint o driniaeth gosmetig

4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut mae Canolfan Ddeintyddol Quay Street yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn yn y practis deintyddol, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth gan holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol.

Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi ar gyfer cleifion mewn modd diogel. Er bod yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus, pan wnaethom agor y dreir ym mhob un o'r tair ystafell driniaeth ddeintyddol, gwelsom eu bod yn amlwg yn aflan ac yn anhylan. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y gofal a ddarperid o safon foddhaol.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith a oedd yn ceisio arwain staff a sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n ddiogel i gleifion. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod staff yn cydweithio'n effeithiol. Roedd y tîm yn broffesiynol ac yn gydlynol.

Gwelsom fod y practis yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n briodol er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Mae mynediad at y practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dyweddod y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd adborth o holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael barn cleifion ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. cwblhawyd 19 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Gwnaethom siarad â dau glaf hefyd ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd adborth cleifion yn gyson gadarnhaol. Dywedodd bron pob un o'r cleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd un claf *"[rydw i'n fodlon] ar y cyfan, ond nid yw'r technegwyr deintyddol cystal yn fy marn i"*. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i weld deintydd.

Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae derbyn neges destun ddiwrnod neu ddau cyn apwyntiad yn ddefnyddiol iawn – iddyn nhw yn ogystal ag i mi, mae'n siwr."

"Mae pawb yn y practis yn gyfeillgar, ac yn barod eu cymwynas."

"Mae croeso mawr bob amser wrth i mi gyrraedd. Maen nhw'n rhoi gwybod i mi beth sy'n digwydd, ac rwy'n cael sicrwydd ynglŷn â'r driniaeth maen nhw'n ei darparu."

"Mae'r practis yn dda iawn, ac mae'r holl staff yn gyfeillgar ac yn barod eu cymwynas."

"Hoffwn allu treulio digon o amser â deintydd i ofyn cwestiynau... Hoffwn gael mwy o wybodaeth ynglŷn â gofal deintyddol gartref... hefyd, hoffwn gael dannedd gosod mwy modern drwy'r GIG..."

"Mae'r HOLL staff wastad wedi bod yn gwrtais iawn ac yn barod eu cymwynas."

Dyweddod dwy ran o dair o'r cleifion eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol 'y tu allan i oriau', a gwelsom arwydd yn ffenestr y

practis a oedd yn dangos y rhif cyswllt mewn argyfwng. Gwnaethom hefyd ddarllen y wybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis, a bu modd inni gadarnhau bod rhif ffôn cyswllt ar neges peiriant ateb y practis. Golyga hyn bod gan y cleifion sawl ffordd o gael mynediad at wybodaeth ynglŷn ag argyfyngau.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd y staff wrthym fod opsiynau triniaeth yn cael eu trafod gyda'r cleifion, a gwelsom dystiolaeth o hyn wedi'i chofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal â mewn argyfwng, gan alluogi'r cleifion i gael eu gweld yn gyflym os bydd angen.

Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael yn y dderbynfa. Roedd gwefan hefyd a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol i gleifion, ac roedd hon yn glir ac yn hawdd i'w defnyddio.

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth hyrwyddo iechyd yn y mannau aros, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmegu a chodi ymwybyddiaeth o ganser y geg.

Roedd gan y practis system ar waith ar gyfer casglu barn cleifion yn rheolaidd. Gwnaethom drafod y trefniadau hynny â rheolwr y practis a ddywedodd wrthym eu bod wedi bod yn cynnal archwiliadau rheolaidd, a gwelsom fod holiaduron ar gael ar ddesg y dderbynfa i'w wneud yn hawdd i'r cleifion eu llenwi wrth iddynt fynychu'r practis.

Pan wnaethom ofyn ynglŷn â gwneud cwyn, dywedodd bron i draean o'r cleifion wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud hynny. Gwelsom fod y broses gwyno ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat wedi'i harddangos yn y practis, fodd bynnag, mae angen diweddarau'r broses ar gyfer cleifion y GIG i gynnwys manylion cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned Lleol, ac roedd angen i'r broses gwyno ar gyfer cleifion preifat gynnwys manylion cyswllt AGIC.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i fanylion cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned ac AGIC gael eu cynnwys yn y prosesau cwyno perthnasol.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd ddiogel i gleifion. Er bod yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus, pan wnaethom agor y dreir ym mhob un o'r tair ystafell driniaeth ddeintyddol, gwelsom eu bod yn amlwg yn aflan ac yn anhylan. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y gofal a ddarperid o safon foddhaol.

Cyfleusterau Clinigol

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob un o'r pedair ystafell driniaeth yn y practis (er mai dim ond tair a ddefnyddid ar y pryd), a chanfuom eu bod yn cynnwys offer addas ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Roedd yr ystafelloedd triniaeth i gyd yn ymddangos yn lân, yn daclus, ac wedi eu trefnu'n dda. Roedd yr holl arwynebau'n rhydd rhag annibendod er mwyn caniatáu glanhau effeithiol. Ond wrth agor y dreir gwelsom fod gan y drydedd ystafell driniaeth ddeintyddol ddrâr rhydd, ac roedd rhai dreir ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth yn aflan ac yn anhylan.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai pob rhan o'r ystafelloedd triniaeth fod yn lân ac yn hylan.

Gwelsom dystiolaeth fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i wirio bod y dyfeisiadau trydanol bach a ddefnyddir yn y practis yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Fe'n hysbyswyd bod y ddau gywasgydd (dyfais sy'n rhoi cyflenwad o aer glân i bweru offer llaw deintyddol ac amryw offer deintyddol eraill) wedi eu cynnal a'u cadw a'u harchwilio yn unol â'r gofynion; fodd bynnag, nid oedd cofnod dyddiol o brofi'r switsh cychwyn/diffodd, a daeth y dystysgrif gwasanaethu i ben ym mis Awst 2014.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu system gadarn ar gyfer cofnodi gwiriadau dyddiol ar y cywasgydd, a rhaid cynnal gwaith gwasanaethu o fewn yr amserlenni a bennwyd.

Dadheintio offer

Nid oedd gan y practis ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Gan fod prinder lle yn yr adeilad, nid oedd cynllun i ddatblygu ystafell o'r fath ar hyn o bryd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis ddatblygu cynllun i weithio at gael ystafell ddadheintio neilltuedig.

Fodd bynnag, gwelsom fod prosesau addas ar waith i atal cleifion rhag croesheintio. Gwnaethom drafod yr angen i fabwysiadu arferion gorau o ran stampio dyddiad ar becynnau a ddefnyddir ar gyfer cyfarpar sydd wedi'i sterileiddio. Yn benodol, dylai'r practis sicrhau bod y pecynnau'n cynnwys y dyddiad y cafodd yr offer eu sterileiddio ddiwethaf, a'r dyddiad dod i ben, er mwyn sicrhau bod y staff yn cael arweiniad o ran sut i'w defnyddio'n ddiogel. Dywedodd rheolwr y practis y byddai'r arfer hon yn cael ei mabwysiadu yn y dyfodol.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith. Gwelsom hefyd fod llyfrau cofnodion addas wedi'u cwblhau ar gyfer y gwaith dyddiol o brofi a chynnal a chadw cyfarpar glanhau. Roedd yr holl lyfrau cofnodion wedi cael eu cwblhau i safon dda. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis system dda i sicrhau bod y cyfarpar glanhau offer yn gweithio'n gywir.

Gwelsom dystiolaeth fod staff wedi cwblhau hyfforddiant ynglŷn â dadheintio a rheoli heintiau. At hynny, roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau, ac wedi defnyddio'r dull o archwilio a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerdydd, fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Gwaredu gwastraff

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu yn briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff cyfredol ar waith.

Offer radiograffeg (pelydr-X)

Canfuom fod trefniadau digonol ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X), ond gwnaethom awgrymu y dylid cadw llyfrau log sicrwydd ansawdd unigol ar gyfer pob pelydr-X ym mhob ystafell driniaeth. Roedd dogfennau perthnasol ar gael, gan gynnwys rhai ynglŷn ag archwiliadau diogelwch a gwaith cynnal a chadw ar gyfarpar pelydr-X, ond nid oedd y rhifau cyfresol wedi eu cofnodi'n gywir ar y tystysgrifau. Gwnaethom drafod hyn â rheolwr y practis, y rheolwr ardal, a'r cyfarwyddwr clinigol yn ystod yr arolygiad, a rhoddwyd sicrwydd inni y byddai hyn yn cael ei gywiro gan y cwmni cynnal a chadw perthnasol. Gwelsom dystiolaeth fod y staff clinigol mwyaf cymwys wedi cwblhau hyfforddiant priodol yn ymwneud â defnyddio ymbelydredd ïoneiddio (pelydrau-X). Fodd bynnag, roedd un deintydd nad oedd wedi cwblhau hyfforddiant diweddar o fewn yr amserlenni a bennir gan y rheoliadau perthnasol. Anfonodd AGIC, felly, lythyr sicrwydd ar unwaith i'r darparwr

deintyddol/perchennog ar 7 Gorffennaf 2015, a chafwyd ymateb boddhaol ar 9 Gorffennaf 2015. (Gweler Atodiad A). Gwnaethom edrych ar y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, sy'n cynnwys manylion ynglŷn â'r offer a'r gweithdrefnau pelydr-X at ddefnydd staff, ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

Meddyginiaeth ac offer meddygol mewn argyfwng

Roedd gan staff fynediad at gyfarpar dadebru a meddyginiaeth pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu) yn y practis. Roedd gan y practis system addas ar waith i sicrhau bod yr offer dadebru a'r feddyginiaeth at ddibenion argyfwng yn cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth ardystiedig fod staff y practis wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol. Pe bai problem feddygol, golygai hyn y byddai gan staff y sgiliau angenrheidiol a mynediad at gyfarpar a chyffuriau achub bywyd i'w galluogi i weithredu ar unwaith. Roedd swyddog cymorth cyntaf penodedig nad oedd wedi derbyn yr hyfforddiant gofynnol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i swyddogion cymorth cyntaf penodedig dderbyn yr hyfforddiant gofynnol.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o naw o gofnodion cleifion. Esboniwyd gweithdrefnau ac opsiynau mewn perthynas â thriniaethau ar lafar i'r cleifion a'u cofnodi yn nodiadau'r cleifion. Gwnaeth yr holl gleifion dderbyn cynlluniau triniaeth, ond ni chwblhawyd pob rhan o'r cofnodion electronig unigoleddig. Mae angen rhoi sylw i'r meysydd canlynol;

- Ni welwyd archwiliadau periodontol sylfaenol⁴ ym mhob un o'r cofnodion deintyddol.
- Nid oedd hanesion hanes cymdeithasol yn gyson

⁴Mae **Archwiliadau Periodontol Sylfaenol** yn ddull sgrinio syml a chyflym a ddefnyddir i ddangos y lefel archwilio sydd ei hangen, ac i roi arweiniad sylfaenol ynglŷn â'r anghenion triniaeth

- Ni chofnodwyd cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu
- Nid oedd y deintyddion yn galw cleifion yn ôl am apwyntiadau parhaus yn unol â chanllawiau cydnabyddedig yn gyson
- Prin oedd y gwaith graddio sganiau pelydr-X mewn ffordd a oedd yn addas at ddibenion archwilio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis archwilio cofnodion cleifion er mwyn gwella cadw cofnodion yn y meysydd a nodwyd.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith a oedd yn ceisio arwain staff a sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n ddiogel i gleifion. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod staff yn cydweithio'n effeithiol. Roedd y tîm yn gydlynol ac yn broffesiynol iawn.

Mae Canolfan Ddeintyddol Quay Street wedi bod yn rhan o grŵp IDH ers 2007. Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r ddeintyddfa o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg mewn ffordd effeithlon, a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad eu bod yn hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan reolwr y practis.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw cyfarpar perthnasol ar waith, ac roedd system addas ar gael i sicrhau bod y tystysgrifau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym eu bod yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd, a gwelsom enghreifftiau o nodiadau diweddar a gofnodwyd mewn cyfarfodydd o'r fath, a oedd yn nodi manylion trafodaethau a'r camau gweithredu roedd eu hangen. Dywedodd staff wrthym eu bod yn cael eu hannog i leisio unrhyw bryderon yn ystod y cyfarfodydd hynny, ac y byddent hefyd yn teimlo'n gyfforddus i drafod pryderon â rheolwr y practis ar unrhyw adeg.

Cynhaliwyd arfarniadau staff bob chwe mis, er mwyn sicrhau bod y staff yn gymwys, ac i ganfod unrhyw anghenion hyfforddiant neu anghenion datblygu.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau llywodraethu clinigol a oedd ar waith yn y practis. Gwelsom dystiolaeth o amrywiaeth o archwiliadau. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis system addas ar waith er mwyn monitro ansawdd a diogelwch y gofal a oedd yn cael ei ddarparu.

Gwnaethom edrych ar wybodaeth am y staff yn y practis. Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod contractau cyflogi ar waith ar gyfer yr holl staff.

Gwelsom enghreifftiau o ddatblygiad proffesiynol parhaus personol (hyfforddiant) a gwblhawyd gan staff yn y practis, a oedd yn dangos bod staff wedi cael cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu cael eu sicrhau eu bod yn cael eu trin gan staff â sgiliau priodol a chyfredol sy'n hyderus ac yn gyfarwydd â'u gweithle.

Ar adeg ein harolygiad, roedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat.

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau. Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith i gynnig cymorth iechyd galwedigaethol trwy'r grŵp IDH. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori rheolwr y practis bod angen cysylltu â'r bwrdd iechyd lleol er mwyn sicrhau bod gan y staff fynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol. Gwelsom gofnodion i ddangos bod yr holl staff clinigol wedi cael brechiadau priodol i warchod eu hunain a'r cleifion rhag firysau a gludir yn y gwaed.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi pryderon ffurfiol (cwynion) ac ymateb iddynt, er nad oedd pryderon llafar a phryderon anffurfiol yn cael eu cofnodi ar y pryd. Gwelsom fod yr holl ohebiaeth a oedd yn ymwneud â phryderon yn cael ei chadw'n gyda'i gilydd yn ganolog, ar wahân i gofnodion cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis gofnodi pryderon llafar a phryderon anffurfiol yn unol â chanllawiau Gweithio i Wella⁵.

⁵Rheoliadau i symleiddio'r modd y caiff pryderon am y GIG eu trin.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod y practis yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n briodol er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Mae mynediad at y practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Lleolir y practis yng nghanol tref Hwlfordd. Mae gan y practis bedair ystafell driniaeth ddeintyddol, un ar y llawr daear a thair ar y llawr cyntaf. Nid oes gan y practis leoedd parcio neilltuedig ar gyfer cleifion, ond mae lleoedd parcio tymor byr ar gael wrth ochr y ffordd yn agos i'r practis.

Roedd mynediad y practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, ac roedd fframiau'r drysau drwy gydol llawr daear y practis yn ddigon llydan i ganiatáu mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn. Nid oes lifft i'r llawr cyntaf, ond gellid trin cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn yr ystafell driniaeth ar y llawr daear.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan. Roedd y practis yn lân, yn daclus ac wedi'i oleuo'n ddigonol drwyddo draw. Roedd yn darparu amgylchedd dymunol iawn i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Roedd maint y dderbynfa a'r man aros yn addas ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth yn yr adeilad.

Roedd gan y practis doiled cleifion, ac er bod hwn yn gwbl hygyrch ac yn lân (gyda chyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn rheoli heintiau), roedd angen iddo gael ei ailaddurno.

Roedd arwydd y tu allan i'r practis ac arno oriau agor y practis a'r rhif cyswllt mewn argyfwng. Roedd enwau a chymwysterau pob deintydd wedi'u harddangos y tu allan, ynghyd â'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Fodd bynnag, roedd un deintydd wedi gadael y practis yn ddiweddar, ac felly roedd angen cael gwared ar yr enw. Roedd rhestr o'r holl staff, yn ogystal â'u swyddogaethau a'u cofrestradau gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn weladwy y tu fewn i'r adeilad. Roedd rhestrau prisiau wedi'u harddangos hefyd yn y dderbynfa.

Yn unol â rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio'n briodol. Gwelsom dystiolaeth fod mesurau a systemau ar waith i amddiffyn staff a chleifion mewn tân. Gwelsom hefyd fod trefniadau addas ar waith i atal mynediad i'r adeilad heb awdurdod.

Roedd cofnodion a gwybodaeth am gleifion yn cael eu storio'n ddiogel, ac roedd cofnodion electronig yn cael eu cadw ar weinydd allanol bob dydd. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd mesurau i sicrhau bod y cleifion a'u gwybodaeth yn ddiogel.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Profiad y Claf, Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, a Rheolaeth ac Arweinyddiaeth. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Canolfan Ddeintyddol Quay Street yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Canolfan Ddeintyddol Quay Street

Dyddiad yr arolygiad: 7 Gorffennaf 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Profiad y Claf				
Tudalen 7	Mae'n rhaid i fanylion cyswllt y Cyngor lechyd Cymuned ac AGIC gael eu cynnwys yn y prosesau cwyno perthnasol. [Canllawiau'r GIG Gweithio i Wella 2011; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008].	Mae cyfeiriad y Cyngor lechyd Cymuned ac AGIC wedi eu harddangos ar y broses gwyno yn y dderbynfa.		Cwblhawyd
Cyflenwi Safonau lechyd a Gofal				
Tudalen 8	Dylai pob rhan o'r ystafelloedd triniaeth fod yn lân ac yn hylan. [Safonau lechyd a Gofal 2.9; Cyngor	At y dyfodol, mae'r holl staff yn gwybod os nad yw ystafell driniaeth yn cael ei defnyddio y dylid ei chadw'n lân ac yn hylan yn unol â Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05. Cynhelir		

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Deintyddol Cyffredinol 1.5; Rheoliadau Gweithleoedd (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992].	hapwiriadau wythnosol gan reolwr y practis er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal. Bydd hyn yn cael ei gofnodi ym mhob gwiriad yn rhestri gwirio'r ystafelloedd triniaeth at ddibenion monitro.		
Tudalen 8	Mae angen i'r practis ddatblygu cynllun i weithio at gael ystafell ddadheintio neilltuedig. [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05]			
Tudalen 9	Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu system gadarn ar gyfer cofnodi gwiriadau dyddiol ar y cywasgydd, a rhaid cynnal gwaith gwasanaethu o fewn yr amserlenni a bennwyd. [Rheoliadau Systemau Pwysedd a Chynwysyddion Nwy Cludadwy 1989; Rheoliadau Diogelwch Systemau Pwysedd 2000].	Mae'r practis yn gwirio'r cywasgydd drwy ddefnyddio switsh ynysu i'w droi ymlaen a'i ddiffodd, ac mae hyn wedi'i gofnodi ar restr gwirio'r ystafelloedd triniaeth.		Cwblhawyd
Tudalen 9	Rhaid i'r holl staff sy'n gwneud radiograffau gael tystysgrif hyfforddiant ymbelydredd	Cwblhaodd Traian Ichim gwrs ar-lein ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ar 7 Gorffennaf 2015.		

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>ïoneiddio gyfredol (o fewn y pum mlynedd ddiwethaf).</p> <p>[Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000].</p>			
Tudalen 10	<p>Mae'n rhaid i swyddogion cymorth cyntaf penodedig dderbyn yr hyfforddiant gofynnol.</p> <p>[Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 2010].</p>	Gwnaeth y swyddogion cymorth cyntaf fynychu cwrs ar 5 Awst, rydym yn aros am dystysgrifau'r staff.		Cwblhawyd
Tudalen 11	<p>Mae angen i'r practis archwilio cofnodion cleifion er mwyn gwella'r cofnodion yn y meysydd a amlygwyd.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 3.3, 3.5; Safon 4 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol].</p>	Ar 5 Awst, cynhelir archwiliadau o'r cardiau bob chwe mis; fe'u hanfonir at glinigwyr, ac fe'u trafodir mewn cyfarfod practis. Mae'r rheolwr cymorth clinigol yn ymweld â'r clinigwyr ddydd Mercher 9 ^{fed} i drafod materion sy'n codi o'r arolygiad.		Cwblhawyd
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
Tudalen 13	<p>Mae'n rhaid i'r practis gofnodi pryderon llafar a phryderon anffurfiol.</p> <p>[Canllawiau'r GIG 'Gweithio i Wella' 2011].</p>	Mae deintyddion wedi adolygu'r canllawiau a byddant yn cynnal archwiliad arall o gofnodion cardiau mewn mis, er mwyn gweld y gwelliant.		Un mis
Ansawdd yr Amgylchedd				

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Nid oes angen gwelliannau			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (printiwch): Kerry Harding

Teitl: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 7 Medi 2015